Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant

**Pecyn i Ymgeiswyr, Ebrill 2026**



LHH

# Cynnwys


Croeso gan Craig Flannery 04

Hysbyseb 05

Gwybodaeth 06

Ein Lleoliad 08

Y Rôl 10

Y Person 11

Amodau a Thâl 13

Amserlenni 14






STATS FOR APRIL 2025
932
52
52
NEC
TOSHIBA

# Croeso Gan Craig Flannery, Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Helpwch ni i wneud gwell penderfyniadau ar gyfer ein pobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Diolch am eich diddordeb yn rôl Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae hwn yn benodiad hollbwysig i'n Gwasanaeth. Rydym yn sefydliad sydd â synnwyr cryf o bwrpas, yn gwasanaethu cymunedau ar draws ardal ddaearyddol fawr ac amrywiol, ac rydym yn falch o ymroddiad a phroffesiynoldeb ein pobl. Fodd bynnag, fel llawer o wasanaethau brys modern, rydym hefyd yn llywio cyfnod o newid sylweddol - yn weithredol, yn ddiwylliannol ac yn sefydliadol.

Bydd y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn chwarae rhan ganolog wrth lunio sut rydym yn ymateb i'r her honno. Nid rôl arweinyddiaeth AD draddodiadol yw hon. Rydym yn chwilio am unigolyn a all arwain trawsnewidiad gwirioneddol - rhywun a fydd yn alinio ein swyddogaeth pobl â'n huchelgeisiau strategol, yn cryfhau gallu arweinyddiaeth ar draws y sefydliad ac yn ein helpu i adeiladu diwylliant sy'n gynhwysol, yn atebol ac yn uchel ei berfformiad.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dod ag empathi a dewrder, yn ogystal â'r gallu i wrando ac adeiladu ymddiriedaeth, a bydd yn meddu ar yr hyder i herio'n adeiladol a gyrru newid ystyrlon. Byddwch yn ymuno â Thîm Arweinyddiaeth Weithredol ymroddedig ac yn cyfrannu ar lefel uchaf y sefydliad.

Rwy'n chwilio am gydweithiwr a fydd yn darparu cyngor clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cynnig her gytbwys a meddylgar, ac yn ein helpu i wneud gwell penderfyniadau i'n pobl a'r cymunedau a wasanaethwn.

Mae gwaith pwysig i'w wneud ar unwaith, gan gynnwys sefydlogi agweddau ar amgylchedd y gweithlu, cryfhau cysylltiadau diwydiannol a meithrin hyder yn y swyddogaeth pobl. Ar yr un pryd, mae cyfle tymor hwy i ail-lunio sut rydym yn datblygu ein harweinwyr, yn cefnogi ein timau ac yn ymgorffori diwylliant sy'n ein galluogi i gyflawni rhagoriaeth nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn agored ein meddwl ynghylch eich cefndir. Yr hyn sydd bwysicaf yw eich gallu i weithredu'n gredadwy ar lefel weithredol, arwain datblygiad sefydliadol a dod ag ymrwymiad gwirioneddol i wasanaeth cyhoeddus ac i Gymru.

Os ydych yn gryf eich cymhelliad dros y cyfle i gael effaith barhaol a gweladwy o fewn gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, byddwn yn eich annog yn gryf i ystyried y rôl hon.
Edrychaf ymlaen at ddysgu mwy amdanoch.

Yn gywir,

**Craig Flannery**
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru



# Hysbyseb

## Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Lleoliad – Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin/Hybrid
## Cyflog – £115,894 - £122,261 y flwyddyn

Mae hwn yn gyfle gweithredol prin ag effaith sylweddol i lunio dyfodol un o wasanaethau cyhoeddus pwysicaf Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn chwilio am Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant rhagorol i arwain trawsnewidiad sylfaenol o'i swyddogaeth pobl, cryfhau gallu sefydliadol a helpu i adeiladu diwylliant modern, cynhwysol sy'n uchel ei berfformiad.

Nid rôl Cyfarwyddwr AD draddodiadol yw hon. Fel aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth lunio cyfeiriad y Gwasanaeth. Byddwch yn alinio'r swyddogaeth Pobl a Diwylliant â blaenoriaethau strategol y sefydliad, gan sicrhau ei bod yn dod yn wir sbardun perfformiad, diwylliant a rhagoriaeth weithredol - nid dim ond gwasanaeth cymorth.

Byddwch yn arwain datblygiad diwylliannol ac arweinyddiaeth ar draws y sefydliad, yn ymgorffori safonau clir o berfformiad ac ymddygiad ac yn adeiladu Cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant gydlynol, broffesiynol sy'n gallu cynnal cynnydd hirdymor.

Yn hollbwysig, byddwch hefyd yn cyflawni effaith gynnar - sefydlogi heriau'r gweithlu, cryfhau cysylltiadau diwydiannol a meithrin hyder mewn arweinyddiaeth a'r swyddogaeth pobl ehangach.

**Rydym yn chwilio am uwch arweinydd pobl sydd â:**

- Hanes cryf mewn amgylcheddau cymhleth, undebol neu weithredol.
- Profiad o arwain datblygiad sefydliadol a thrawsnewid diwylliannol.
- Yr hygrededd a'r hyder i weithredu a herio ar lefel Weithredol.
- Y deallusrwydd emosiynol i arwain gydag empathi wrth gyflawni newid.
- Y gallu i feithrin gallu arweinyddiaeth a datblygu timau â photensial uchel.

Efallai y byddwch yn dod o fewn neu y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, ond byddwch yn dod â pherthynas glir â gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus, ymrwymiad i Gymru a gwerthfawrogiad o gyfrifoldebau gwasanaeth brys.

Mae hon yn rôl ganolog ar adeg ddiffiniol i'r Gwasanaeth. Os ydych yn gryf eich cymhelliad dros y cyfle i arwain newid ystyrlon, dylanwadu ar y lefel uchaf a chael effaith barhaol ar gymunedau ledled Cymru, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

I gael gwybod mwy ac ymgeisio, ewch **Penna | Jobs** neu am drafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon cysylltwch neu i gael trafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon, cysylltwch â **Fizza.Islam@LHH.com** neu ar **0141 220 6460.**

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **hanner nos ddydd Sul 17 Mai, 2026.**



# Gwybodaeth

## Lleihau perygl a diogelu'r bobl fwyaf bregus ar draws ein cymunedau.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn diogelu ac yn gwasanaethu mwy na 900,000 o bobl ar draws bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Rydym yn cwmpasu tua 11,700 cilomedr sgwâr - o Bort Talbot yn y de i ffiniau Powys yn y gogledd, ac o ganolfannau diwydiannol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i gymunedau arfordirol Sir Benfro a Cheredigion – ac rydym yn un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub mwyaf yn y Deyrnas Unedig yn ôl daearyddiaeth.

**Ein tirwedd sy'n diffinio ein her. Rydym yn rheoli proffil risg amrywiol sy'n cynnwys:**

- Seilwaith petrocemegol ac ynni mawr yn Aberdaugleddau.
- Diwydiant trwm ac amgylcheddau trefol dwys.
- Cymunedau gwledig ac amaethyddol helaeth.
- 650km o arfordir a dyfrffyrdd mewndirol sylweddol.
- Cynnydd tymhorol yn y boblogaeth o ganlyniad i dwristiaeth.

Rydym yn gweithredu o 56 o orsafoedd tân a 2 orsaf wirfoddol ar draws tair adran, gyda chefnogaeth tua 1,350 o gydweithwyr ymroddedig sy'n gweithio mewn ymateb brys, atal, amddiffyn a swyddogaethau corfforaethol.

Er mai ymateb brys sy'n parhau i fod wrth wraidd ein gwasanaeth, mae ein rôl heddiw yn ehangach ac yn fwy ataliol nag erioed.

Rydym yn mynychu miloedd o ddigwyddiadau bob blwyddyn - gan gynnwys tanau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, llifogydd ac achub arbenigol - ond mae ein heffaith yn gynyddol yn cael ei mesur gan y digwyddiadau nad ydynt yn digwydd.

Trwy weithgarwch atal wedi'i dargedu, gorfodi diogelwch tân busnesau, ymgysylltu â'r gymuned, cydweithio ag ymatebwyr meddygol a gweithio mewn partneriaeth, rydym yn lleihau perygl ac yn amddiffyn y bobl fwyaf bregus ar draws ein cymunedau.

Er ein bod yn haeddiannol falch o'n gallu gweithredol, rydym yr un mor falch o'n rôl gynyddol mewn atal, amddiffyn a phartneriaeth.

**Mae ein ffocws strategol presennol yn cynnwys:**

- Cryfhau gwydnwch ariannol a chynaliadwyedd hirdymor.
- Ymgorffori aeddfedrwydd diwylliannol ac arweinyddiaeth gynhwysol.
- Gwella rhagoriaeth weithredol a gallu rheoli digwyddiadau.
- Dyfnhau cydweithio â'n partneriaid golau glas a gwasanaeth cyhoeddus Cymru.
- Manteisio ar drawsnewid digidol a mewnwelediad data.
- Sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Nid busnes fel arfer yw hyn. Fel pob gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd o gyfyngiadau ariannol, craffu cyhoeddus a disgwyliadau cymunedol sy'n esblygu. Ein hymateb yw arwain gyda dilysrwydd, tryloywder ac uchelgais - gan wella sut rydym yn defnyddio ein pobl, ein hasedau a'n harbenigedd yn barhaus.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei oruchwylio gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys 25 o Aelodau etholedig sy'n cynrychioli chwech awdurdod lleol cyfansoddol. Fel gwasanaeth, rydym yn atebol i'r cyhoedd ac yn gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol a pholisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae ein ffocws yn syml: darparu gwasanaethau diogel, effeithiol ac effeithlon sy'n ennill ac yn cynnal ymddiriedaeth y cymunedau a wasanaethwn.





# Ein Lleoliad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnig cyfuniad prin: gallwch weithio mewn sefydliad sydd â maint a chymhlethdod gwasanaeth brys mawr, ochr yn ochr â byw ansawdd bywyd sy'n gynyddol anodd dod o hyd iddo mewn mannau eraill yn y DU.

### Lle i Anadlu — a Pherthyn

Mae Caerfyrddin, lleoliad ein Pencadlys Gwasanaeth, yn cael ei hystyried yn eang fel y dref hynaf yng Nghymru. Mae'n cyfuno cymeriad hanesyddol â bywiogrwydd diwylliannol a masnachol cynyddol. Mae manwerthwyr, caffis a bwytai annibynnol yn eistedd ochr yn ochr â datblygiadau modern, gyda chysylltiadau trafnidiaeth cryf yn cysylltu'r dref ag Abertawe, Caerdydd a thu hwnt.

Mae'r rhanbarth ehangach yn cynnig harddwch naturiol eithriadol. O Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Phenrhyn Gŵyr i Fynyddoedd Cambria a Bannau Brycheiniog, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig mynediad uniongyrchol i arfordir, cefn gwlad a mannau agored.

I'r rhai sy'n gwerthfawrogi byw yn yr awyr agored, mae'r ardal yn cynnig hwylio, syrffio, beicio, cerdded a gweithgareddau marchogaeth sy'n hawdd eu cyrraedd. I eraill, mae'n cynnig rhywbeth yr un mor werthfawr - gofod, rheolaeth a phersbectif.

### Cysylltedd a Mynediad

Mae Caerfyrddin wedi'i chysylltu'n dda gan reilffyrdd a ffyrdd:

- Gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol i Abertawe, Caerdydd a Llundain.
- Mynediad i goridor yr M4 o fewn tua 30–40 munud.
- Maes Awyr Caerdydd o fewn tua 90 munud.

I uwch arweinwyr sy'n symud o ganolfannau trefol, mae'r cymudo'n cael ei ddisodli gan gymuned.

### Addysg a Chymuned

Mae'r rhanbarth yn elwa o amrywiaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd uchel eu parch yn y sectorau gwladol ac annibynnol. Mae sefydliadau addysg uwch yn Abertawe ac Aberystwyth yn cyfrannu at bresenoldeb myfyrwyr ac ymchwil bywiog ar hyd a lled y rhanbarth. Mae gan ganolbarth a gorllewin Cymru ymdeimlad cryf o hunaniaeth a chymuned. Mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn rhan bwysig o fywyd bob dydd sy'n cael ei dathlu, ac mae llawer o arweinwyr sy'n symud i'r ardal yn sôn am y cynhesrwydd a'r croeso maen nhw'n ei dderbyn.

### Tai a Chost Byw

O'i gymharu â llawer o rannau o'r DU, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig gwerth rhagorol mewn prisiau tai, boed yn chwilio am eiddo arfordirol, tawelwch gwledig neu gyfleustra canol tref. Mae'r cydbwysedd rhwng cyfrifoldeb proffesiynol a lles personol yn wirioneddol gyraeddadwy yma.

### Rôl Arweinyddiaeth gyda Chydbwysedd Ffordd o Fyw

Dyma wasanaeth sy'n mynnu perfformiad uchel - ond mae hefyd wedi'i leoli mewn rhan o'r DU sy'n galluogi arweinwyr i adfywio, myfyrio a chynnal cydbwysedd. Mae symud ar gyfer rôl arweinyddiaeth uwch yn benderfyniad arwyddocaol - yn broffesiynol ac yn bersonol.

I'r rhai sy'n barod i symud, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig mwy na symudiad gyrfa. Mae'n cynnig newid mewn cyflymder heb leihau effaith.





# Y Rôl: Adeiladu Cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant fodern, broffesiynol o'r gwaelod i fyny



## Mae hon yn rôl sy'n gofyn am effaith uniongyrchol ochr yn ochr â gweledigaeth hirdymor.

Mae hwn yn benodiad gweithredol allweddol sydd â'r cyfle i lunio dyfodol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fel Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, byddwch yn arwain trawsnewid swyddogaeth pobl y Gwasanaeth, gan sicrhau ei bod yn dod yn sbardun strategol ar gyfer perfformiad sefydliadol, diwylliant a rhagoriaeth weithredol.

Ni fyddwch yn goruchwylio rheoli a datblygu adnoddau dynol yn unig, byddwch yn ailddiffinio sut mae'r Gwasanaeth yn denu, datblygu, cefnogi ac arwain ei bobl.

Mae hon yn rôl sy'n gofyn am effaith uniongyrchol ochr yn ochr â gweledigaeth hirdymor.

### Alinio Pobl a Diwylliant â Blaenoriaethau Strategol

Byddwch yn sicrhau bod y swyddogaeth Pobl a Diwylliant wedi'i halinio'n llawn â chyfeiriad strategol y Gwasanaeth, gan gynnwys ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol.

Bydd hyn yn cynnwys ail-leoli AD a Datblygu Sefydliadol fel partneriaid strategol gwirioneddol - symud i ffwrdd o fodel adweithiol, trafodaethol tuag at swyddogaeth ragweithiol, wedi'i harwain gan fewnwelediad sy'n sail i wydnwch a pherfformiad gweithredol.

Byddwch yn sefydlu fframweithiau llywodraethu, atebolrwydd a chynllunio gweithlu clir, gan sicrhau bod y strategaeth pobl yn cefnogi darpariaeth rheng flaen yn uniongyrchol.

### Arwain Trawsnewid Diwylliannol a Sefydliadol

Byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth lunio diwylliant a gallu arweinyddiaeth y Gwasanaeth.

Bydd hyn yn gofyn i chi wneud diagnosis o ddiwylliant sefydliadol, cryfhau disgwyliadau ymddygiadol a gwreiddio fframwaith arweinyddiaeth cyson sy'n meithrin hyder, atebolrwydd a chynhwysiant.

Gan adeiladu ar gorff mawr o waith sydd eisoes wedi'i wneud, byddwch yn arwain esblygiad diwylliannol ystyrlon sy'n gwella profiad y gweithlu a darpariaeth y gwasanaeth, ac yn sicrhau bod gwerthoedd, lles a pherfformiad wedi'u hintegreiddio'n llawn, gan greu amgylchedd lle gall pobl berfformio ar eu gorau.

### Adeiladu Cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant Fodern

Byddwch yn dwyn ynghyd yr holl swyddogaethau sy'n gysylltiedig â phobl yn gyfarwyddiaeth gydlynol, uchel ei pherfformiad er mwyn adeiladu Cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant fodern, broffesiynol o'r gwaelod i fyny.

Mae hyn yn cynnwys llunio'r strwythur a'r model gweithredu, datblygu tîm arweinyddiaeth galluog a hyderus a gwreiddio safonau, rolau a disgwyliadau cyson ar draws y swyddogaeth.

Byddwch yn buddsoddi yn natblygiad eich tîm, gan adeiladu gallu a sicrhau bod y swyddogaeth yn gymwys i gynnal cynnydd dros y tymor hir.

### Sicrhau Sefydlogrwydd Ar Unwaith ac Adeiladu Ymddiriedaeth

Ochr yn ochr â thrawsnewid, disgwylir i chi gyflawni effaith gynnar, weladwy.

Byddwch yn mynd i'r afael â heriau presennol y gweithlu yn bendant ac yn deg, yn cryfhau cysylltiadau diwydiannol ac yn creu amgylchedd o ddiogelwch seicolegol a chyfathrebu agored.

Byddwch yn gwella hyder y gweithlu mewn arweinyddiaeth ac yn sicrhau bod llywodraethu, cydymffurfiaeth a rheoli risgiau'n gadarn ac yn effeithiol.

### Cyfrannu ar Lefel Weithredol

Fel aelod llawn o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth lunio cyfeiriad y Gwasanaeth yn y dyfodol trwy gyfrannu'n ystyrlon ar y lefel uchaf a helpu i adeiladu Tîm Gweithredol cryf, cytbwys sy'n uchel ei berfformiad.

Byddwch yn darparu cyngor clir, yn seiliedig ar dystiolaeth a her adeiladol i'r Prif Swyddog Tân a chydweithwyr uwch, gan ddylanwadu ar wneud penderfyniadau gydag uniondeb, mewnwelediad a phroffesiynoldeb.

Mae hon yn rôl i arweinydd sy'n cyfuno meddwl strategol â chyflawni gweithredol, sy'n gallu herio gyda hyder ac empathi, ac sy'n cael ei ysgogi gan y cyfle i greu effaith barhaol o fewn gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

# Y Person



## Mae'r rôl hon yn gofyn am gyfuniad prin o hygrededd, dewrder ac empathi.

Rydym yn chwilio am uwch-arweinydd pobl eithriadol a all weithredu ar lefel Weithredol, arwain trawsnewid ystyrlon ac adeiladu ymddiriedaeth ar draws sefydliad cymhleth, gweithredol. Byddwch yr un mor gyfforddus yn llunio strategaeth ag yr ydych yn cyflawni newid pendant ar lawr gwlad.

### Profiad a Llwyddiant Blaenorol

Byddwch yn dod â hanes blaenorol cryf a chredadwy o arweinyddiaeth uwch o fewn amgylchedd cymhleth.

**Mae hyn yn debygol o gynnwys:**

- Profiad sylweddol o arwain swyddogaeth pobl, AD neu ddatblygu sefydliadol o fewn sefydliad cymhleth, undebol a/neu hanfodol yn weithredol.
- Hanes blaenorol amlwg o gyflawni datblygiad sefydliadol, newid diwylliannol a thrawsnewid ar raddfa fawr.
- Profiad o ail-lunio, adeiladu neu foderneiddio swyddogaeth pobl i wella effaith ac effeithiolrwydd.
- Profiad blaenorol o weithredu ar lefel y Bwrdd neu'r Adran Weithredol, cyfrannu at strategaeth a dylanwadu ar wneud penderfyniadau.
- Hanes cryf o adeiladu cysylltiadau diwydiannol adeiladol ac effeithiol.

Efallai y byddwch yn dod o fewn neu y tu hwnt i'r sector cyhoeddus. Yr hyn sydd bwysicaf yw eich gallu i drosi strategaeth pobl yn effaith sefydliadol wirioneddol.

### Arweinyddiaeth a Gallu

Byddwch yn feddyliwr strategol a all droi uchelgais yn gyflawniad.

**Byddwch yn dangos:**

Y gallu i alinio strategaeth pobl â blaenoriaethau sefydliadol a realiti gweithredol.

- Ymrwymiad clir i ymgorffori gwerthoedd, lles a chynhwysiant fel elfennau craidd o fywyd sefydliadol.
- Barn gref a'r hyder i herio'n briodol ar lefel uwch.
- Deallusrwydd emosiynol uchel, gyda'r gallu i arwain newid mewn ffordd sy'n dod â phobl gyda chi.
- Ymwybyddiaeth wleidyddol a gwydnwch, yn enwedig mewn amgylchedd uchel ei broffil sy'n destun prosesau craffu.
- Arddull arweinyddiaeth dan arweiniad hyfforddi, gydag ymrwymiad gwirioneddol i ddatblygu eraill.

Byddwch yn rhywun a all amharu'n adeiladol – gan godi safonau a disgwyliadau heb golli ymddiriedaeth nac ymgysylltiad.

### Arddull Bersonol ac Effaith

Bydd eich hygrededd a'ch ymagwedd bersonol yn hanfodol i lwyddiant yn y rôl hon.

**Byddwch yn:**

- Meithrin perthnasoedd cryf, llawn ymddiriedaeth ar draws y sefydliad.
- Cyfathrebu gydag eglurder, natur agored a dilysrwydd.
- Dangos uniondeb a barn gadarn mewn sefyllfaoedd cymhleth.
- Gweladwy, yn agos-atoch ac yn hyderus wrth ymgysylltu â chydweithwyr ar bob lefel.
- Dod ag egni, cyflymder a ffocws i heriau uniongyrchol a blaenoriaethau tymor hwy.

### Gwerthoedd ac Aliniad

Yn anad dim, byddwch yn dangos aliniad cryf â diben a gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**Byddwch yn dod â:**

- Chysylltiad gwirioneddol â gwasanaeth cyhoeddus a rôl gwasanaeth brys.
- Ymrwymiad gweladwy i Gymru a'r cymunedau y mae'r Gwasanaeth yn eu cefnogi.
- Ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb, proffesiynoldeb ac uniondeb.

Disgwylir cymhwyster CIPD - neu brofiad cyfatebol mewn maes cysylltiedig.

Mae hon yn rôl i arweinydd a all gydbwyso empathi â chyflawni, her â chydweithio a strategaeth â gweithredu - rhywun a fydd yn gadael effaith barhaol ar y Gwasanaeth a'i bobl.



# Amodau a Thâl

## Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella'ch ffordd o fyw.

### Cyflog
£115,894 - £122,261 y flwyddyn

### Lleoliad Gwaith
Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin/Hybrid

### Buddion
Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella'ch ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Aelodaeth o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Gwyliau blynyddol hael
- Cyfleoedd i ddysgu a datblygu
- Chwaraeon a chymdeithasol
- Cynghorwyr iechyd a Ffitrwydd
- Cyrsiau Cymraeg
- Buddion Siopa
- Iechyd Galwedigaethol
- Parcio am Ddim
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Llesiant Gweithwyr
- Elusen y Diffoddwyr Tân

### Amserlenni
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:
Hanner nos dydd Sul 17 Mai, 2026

Y Ganolfan Asesu:
Wythnos yn cychwyn 15 Mehefin, 2026

Cyfweliadau:
Wythnos yn cychwyn 22 Mehefin, 2026



# Sut i Ymgeisio

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol fod yn gynrychioliadol o bob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb.**

I wneud cais am y swydd, cliciwch ar **Penna | Jobs** ac uwchlwythwch CV pwrpasol a llythyr eglurhaol erbyn hanner nos dydd Sul 17 Mai, 2026. Os bydd unrhyw broblemau, cysylltwch â **Fizza.Islam@LHH.com**

Sylwch na ddylai'r llythyr eglurhaol fod yn hirach na dwy dudalen o A4 ac y dylai grynhoi eich sgiliau a'ch profiad perthnasol a'ch cymhellion dros wneud cais am y rôl.

Os hoffech drafodaeth gyfrinachol, anffurfiol am y rôl, cysylltwch â **Fizza Islam**, LHH ar **+44 (0)141 220 6460** neu e-bostiwch y cyfeiriad uchod.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol  gynrychioli pob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu â'r gymuned a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaoedd.

Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch neu os hoffech siarad ag aelod o'n tîm i drafod unrhyw amgylchiadau penodol, anfonwch e-bost at y cyfeiriad uchod.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

